Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Gweithgareddau Cyfnod Allweddol 3
# Canllaw i'r Cynulliad i athrawon



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

## Canllaw i'r Cynulliad i athrawon

**Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Cânt eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli hwy a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

**Pam sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**
Ym mis Gorffennaf 1997, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn, *Llais dros Gymru*, a oedd yn amlinellu ei chynigion ar gyfer datganoli yng Nghymru. Cafodd y cynigion hynny eu cadarnhau yn y refferendwm ar 18 Medi 1997 (Ie = 50.3%, Na = 49.7%). Yn dilyn hynny, pasiodd y Senedd yn San Steffan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a arweiniodd at sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ganlyniad i Orchymyn Cynulliad Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, trosglwyddwyd pwerau a chyfrifoldebau datganoledig Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Ers hynny, mae nifer o Ddeddfau Seneddol wedi rhoi pwerau newydd i'r Cynulliad.

**Pryd y cynhaliwyd yr etholiadau cyntaf?**
Cynhaliwyd yr etholiadau cyntaf ar 6 Mai 1999 a chynhaliwyd y Cyfarfod Llawn cyntaf ar 12 Mai yn yr un flwyddyn.

**Aelodau Cynulliad**
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys **60** o Aelodau Cynulliad:
40 Aelod Etholaethol
20 Aelod Rhanbarthol.

**Sut y caiff Aelodau Cynulliad eu hethol?**
Cynhelir etholiadau bob pedair blynedd ac mae gan bob etholwr **ddwy** bleidlais. O'r 60 o Aelodau a gaiff eu hethol, mae 40 yn cynrychioli etholaethau ac fe'u hetholir drwy system 'y Cyntaf i'r Felin', sef yr un broses a ddefnyddir i ethol Aelodau Seneddol i Dŷ'r Cyffredin. Mae'r etholaethau hyn yr un fath â'r etholaethau sy'n ethol Aelodau Seneddol. Mae 20 Aelod arall yn cynrychioli'r rhanbarthau. Caiff yr Aelodau Rhanbarthol eu hethol drwy fath o gynrychiolaeth gyfrannol a chyfeirir ato fel 'System Aelodau Ychwanegol'.

**Beth yw gwaith Aelodau Cynulliad?**
Mae Aelodau Cynulliad yn:
- Cynrychioli'r bobl sy'n byw yn y rhanbarth neu'r etholaeth
- Ymdrin â phroblemau eu hetholwyr
- Ateb llythyrau, negeseuon e-bost ac ymholiadau
- Mynychu'r Cyfarfod Llawn (brynhawn dydd Mawrth a dydd Mercher)
- Herio/craffu ar Lywodraeth Cymru
- Gwasanaethu ar bwyllgorau
- Mynychu cyfarfodydd pleidiau

**Beth sy'n digwydd yn y Cyfarfod Llawn?**
Cyfarfod o holl Aelodau'r Cynulliad yw'r Cyfarfod Llawn a gynhelir yn y Siambr. Hwn yw fforwm gwneud penderfyniadau a chyfreithiau'r Cynulliad. Cynhelir y Cyfarfod Llawn ar brynhawn dydd Mawrth a dydd Mercher yn gyhoeddus a chaiff ei ddarlledu'n fyw ar wefan y Cynulliad (senedd.tv).

Caiff y Cyfarfod Llawn ei gadeirio gan y Llywydd gyda Dirprwy Llywydd yn dirprwyo yn ôl yr angen. Cânt eu hethol gan yr holl Aelodau Cynulliad.

Bydd y Llywydd yn cyhoeddi agenda ar gyfer pob cyfarfod ymlaen llaw. Caiff o leiaf 45 munud ei neilltuo bob wythnos ar gyfer Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog. Yn ogystal, bydd pob Gweinidog y Cabinet yn ymateb i Gwestiynau Llafar o leiaf unwaith bob pedair wythnos. Bydd Aelodau Cynulliad yn trafod materion ar yr agenda ac yn pleidleisio ar y cynigion a gyflwynir.

Mae sedd wedi'i neilltuo ar gyfer pob Aelod Cynulliad ynghyd â chyfrifiadur sgrin gyffwrdd y gallant ei ddefnyddio yn ystod trafodaethau. Maent yn eistedd mewn hanner cylch yn wynebu'r Llywydd.

Mae'r cyfrifiaduron sgrin gyffwrdd yn caniatâu i Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio e-bost a chael gwybodaeth ar ffurf electronig. Gall yr Aelodau Cynulliad anfon neges at y Llywydd yn gofyn am ganiatâd i siarad.

Mae'r Cynulliad yn gwbl ddwyieithog a gall Aelodau'r Cynulliad ddewis siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ym mhob Cyfarfod Llawn ac yng nghyfarfodydd pwyllgorau.

Mae'r Aelodau'n pleidleisio drwy bwyso botymau ar gonsol sydd ar eu desgiau. Gallant ddewis pleidleisio 'o blaid', 'yn erbyn' neu 'ymatal'. Dangosir y canlyniadau ar unwaith ar sgriniau yn y Siambr.

Cynhyrchir cofnodion o bob Cyfarfod Llawn a chyfarfod pwyllgor, a chyfeirir atynt fel Cofnod y Trafodion. Cofnod gair-am-air yw hwn a gaiff ei olygu er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb ac er mwyn osgoi ailadrodd diangen. Cyhoeddir y Cofnod ar wefan y Cynulliad.

**Beth yw pwyllgor?**
Grŵp o Aelodau Cynulliad yw Pwyllgor Cynulliad sy'n cyfarfod yn rheolaidd i graffu ar bolisïau a deddfwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf yn cwrdd yn gyhoeddus a cheir 'cydbwysedd rhwng y pleidiau' yn gyffredinol. (h.y. daw Aelodau'r Pwyllgor o'r holl bleidiau sydd â chynrychiolaeth yn y Cynulliad).

**Pwy yw Llywodraeth Cymru?**
Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.

**Pwy sy'n penodi Llywodraeth Cymru?**
Mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru benodi Prif Weinidog Cymru o fewn 28 diwrnod yn dilyn etholiad, neu bydd rhaid cynnal etholiad Cynulliad newydd. Cymeradwyir y penodiad gan Ei Mawrhydi, y Frenhines. Bydd Prif Weinidog Cymru yn penodi Gweinidogion Cymru a'r Dirprwy Weinidogion, gyda chymeradwyaeth y Frenhines.

**Beth y gallant ei wneud?**
Gall Llywodraeth Cymru ddeddfu o fewn 20 Pwnc penodedig. Dynodir y pynciau hyn yn Atodiad 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006).

**Beth yw Deddf Llywodraeth Cymru?**
Drafftiwyd Deddf Llywodraeth Cymru (2006) yn San Steffan. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r hawl i Lywodraeth Cymru wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru a elwir yn Fesurau Cynulliad. Daeth y Mesur Cynulliad cyntaf yn gyfraith ym mis Gorffennaf 2008. Adwaenir y 22 Mesur a basiwyd rhwng 2007 a 2011 fel Mesurau Cynulliad o hyd. Yn dilyn pleidlais 'ie' yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 03 Mawrth 2011, o fis Mai 2011 ymlaen, gall y Cynulliad wneud cyfreithiau a elwir yn 'Deddfau Cynulliad'.

**Beth na allant ei wneud?**
Mae yna bynciau nad ydynt wedi'u 'datganoli'. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth y DU yn San Steffan sy'n penderfynu ar ddeddfwriaeth ar y pynciau hynny. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys Amddiffyn, y Swyddfa Gartref a Threthi a Budd-daliadau.

**Beth yw ystyr Cwnsler Cyffredinol?**
Y Cwnsler Cyffredinol yw Prif Gynghorydd Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Nid oes rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol fod yn Aelod Cynulliad. Enwebir y Cwnsler Cyffredinol gan Brif Weinidog Cymru ac fe'i penodir gan y Frenhines.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru?**
Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw datblygu a gweithredu polisïau. Y Llywodraeth hefyd sy'n gyfrifol am y cyllid. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar waith y Llywodraeth.

**Canllaw i'r Broses Ddeddfu**
Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") wedi galluogi'r Cynulliad i gael mwy o bwerau i wneud ei gyfreithiau ei hun, a hynny fesul achos.

Yn y pynciau yr oedd ganddo gymhwysedd deddfwriaethol, roedd y Cynulliad yn gallu gwneud ei gyfreithiau ei hun, a gelwid y rhain yn "**Fesurau".** Roedd gan Fesur effaith debyg i Ddeddf Seneddol.

Yn ystod y Trydydd Cynulliad, rhwng 2007 a 2011, pasiwyd 22 Mesur gan y Cynulliad. Cyfeirir at y cyfreithiau hyn fel Mesurau Cynulliad.

**Refferendwm 2011**

Yn dilyn pleidlais 'ie' yn y refferendwm, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu llunio deddfau ar yr holl bynciau datganoledig, a hynny heb orfod gofyn am gytundeb Senedd y DU yn gyntaf. Nid yw canlyniad y refferendwm yn golygu y gall y Cynulliad lunio deddfau ar fwy o bynciau nag o'r blaen.

Bellach, ni fydd cyfreithiau'r Cynulliad yn cael eu galw'n 'Mesurau Cynulliad'. Erbyn hyn, bydd cyfreithiau arfaethedig yn cael eu galw'n 'Biliau' a bydd cyfreithiau sydd wedi'u pasio yn cael eu galw'n 'Deddfau'. Bydd y Mesurau a luniwyd ers 2007 yn dal i gael eu galw'n 'Mesurau Cynulliad' a bydd eu statws cyfreithiol yn parhau. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl llunio unrhyw Fesurau pellach, a bydd cyfreithiau a lunnir gan y Cynulliad yn cael eu galw'n 'Deddfau'.

**Y Pynciau sydd wedi'u datganoli:**

01 Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
02 Henebion ac adeiladau hanesyddol
03 Diwylliant
04 Datblygu economaidd
05 Addysg a hyfforddiant
06 Yr Amgylchedd
07 Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân
08 Bwyd
09 Iechyd a gwasanaethau iechyd
10 Priffyrdd a thrafnidiaeth
11 Tai
12 Llywodraeth leol
13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
14 Gweinyddiaeth gyhoeddus
15 Lles cymdeithasol
16 Chwaraeon a hamdden
17 Twristiaeth
18 Cynllunio gwlad a thref
19 Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
20 Y Gymraeg